



Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

The Commission on Justice in Wales

Cyngor Cyfraith Cymru

Papur trafod ac ymgynghori

Rydym yn gwahodd sylwadau ar y cynigion a gynhwysir yn y papur hwn erbyn 30 Tachwedd 2018. Anfonwch at y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru – JusticeCommission@gov.wales

Cefndir a throsolwg

1. Mae'r papur hwn yn ymateb i'r galw yng Nghymru am gydweithredu, cydgysylltu a chyfathrebu gwell ym maes y gyfraith. Yn sail i hyn, mae'n defnyddio'r ddarlith gan yr Arglwydd Lloyd-Jones a draddodwyd yng Nghynhadledd Cymru'r Gyfraith yn 2017 ('Datblygu Cymru'r Gyfraith'), a'r dystiolaeth sy'n datblygu i'r Comisiwn cyfredol ar Gyfiawnder yng Nghymru a gadeirir gan yr Arglwydd Thomas², yn enwedig trafodaeth y Cyd-bwyllgor Sefydlog ar gyfer Addysg Gyfreithiol yn yr Alban gan yr Athro Alan Paterson. Wrth ddarparu cyfeiriad teithio, mae'r papur yn gwneud awgrymiadau ymarferol am fframwaith sefydliadol – un sy'n gorfod cael ei lunio'n³ bwrpasol ar gyfer anghenion penodol Cymru.

2. Er mai 'taith ddatganoli Cymru' yw'r cefndir hanfodol, yn enwedig y cam tuag at bwerau a gedwir yn ôl yn Neddf Cymru 2017, mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r fforwm a gynigir yma ynghlwm wrth newid cyfansoddiadol pellach sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder yng Nghymru.

Mae'r angen yng Nghymru am gorff lefel uchel a all hwyluso a hyrwyddo dull mwy cydgysylltiedig o ymdrin â gwybodaeth a sgiliau, arfer gorau ac arloesedd yn y maes cyfreithiol eisoes yn cael ei gyfleu yn glir. Yn wir, yng ngoleuni'r heriau lluosog a wynebwr gan y system cyfiawnder ac arfer cyfreithiol yng Nghymru, thema yr ymhelaethwyd arni gan yr Arglwydd Thomas mewn cyfres o ddarlithoedd ac erthyglau,⁴ mae'r mater yn un brys. Ynghyd â disgyblaethau cystadleuol pendant a newid cyfansoddiadol cyffredinol, mae cyflymder anhygoel newid addysgol, rheoliadol a thechnolegol yn y sector yn sail i hyn.

¹ www.lawgazette.co.uk/law/legal-wales-new-supreme-court-judge-calls-for-institute-of-welsh-law/5062836.article

² <https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-08/Submission-to-the-justice-commission-from-professor-alan-paterson.pdf>

³ <https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-08/Submission-to-the-justice-commission-from-professor-alan-paterson.pdf>

⁴ <http://sites.cardiff.ac.uk/wgc/files/2017/11/The-Past-and-the-Future-of-Law-in-Wales.pdf>

3. Mae darlith yr Arglwydd Lloyd-Jones yn pwysleisio rhai o'r pwyntiau perthnasol o bwys: y broblem benodol yng Nghymru o hygyrchedd at y gyfraith; materion sy'n ymwneud â hyfforddiant proffesiynol a barnwrol ac addysg barhaus wrth i'r cyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr ddangos gwahaniaeth cynyddol; anawsterau ymarferol ynghylch addysg a hyfforddiant cyfreithiol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddechrau gydadarparu deunyddiau sylfaenol. Mae tystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder eisoes yn tynnu sylw at eraill, yn enwedig materion sy'n ymwneud â hyfforddiant proffesiynol a barnwrol ac addysg barhaus yng nghyfraith newydd Cymru; olyniaeth ac amrywiaeth yn y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru; datblygiad 'technoleg gyfreithiol'; cysylltiadau rhwng ysgolion y gyfraith, proffesiynau cyfreithiol a'r farnwriaeth yng Nghymru; ac addysg gyfreithiol gyhoeddus.
4. Fel y dangosir hefyd yn narlith yr Arglwydd Lloyd-Jones, mae mentrau amrywiol eisoes wedi cael eu rhoi ar waith mewn ymateb i hyn. Mae ffurfiau newydd ar seilwaith cyfreithiol Cymru wedi cael eu cyflwyno, fel gyda Phwyllgor Cyngori Cymru Comisiwn y Gyfraith, ac yn raddol mae polisïau ac arferion newydd wedi dod i'r golwg, fel y dangoswyd gan y diddordeb lleol mewn codeiddio. Fodd bynnag, fel stori datganoli yng Nghymru mae llawer o'r gwaith datblygu yn ad hoc a thameidiog, yn werthfawr ond yn gyfyngedig. A siarad yn fwy cyffredinol, thema gyson wrth ymgysylltu â'r Comisiwn ar Gyfiawnder yw'r her a'r cyfle i'r system cyfiawnder ac arfer cyfreithiol yng Nghymru sy'n gysylltiedig ag amodau llywodraethu gwlad fach. Er bod yr adnoddau yn gyfyngedig, yn enwedig yng ngoleuni demograffeg ôl-ddiwydiannol a gwledig, mae'r potensial dwbl am ddull mwy cydgysylltiedig, ac am ffyrdd o weithio mwy cydweithredol neu mewn partneriaeth, yn sylweddol.
5. Yn unol â'r rhestr o bwyntiau o bwys, mae'r papur hwn yn rhagweld cylch gwaith ehangach ar gyfer y fforwm cyngori arfaethedig na, dyweder, y Cyd-bwyllgor Sefydlog ar gyfer Addysg Gyfreithiol (JSC) yn yr Alban. Yn unol â hyn ac ar yr un pryd, dylai hyn hwyluso barn fwy cyfannol a chaniatáu ar gyfer blaenoriaethu a thargedu. Mae cyflymder y newid yn y sector yn golygu bod yn rhaid gofalu na fydd gormod o ragnodi neu fanylion yn y cylch gwaith.
6. Mae ymrwymiad i'r fforwm cyngori arfaethedig neu gydberchenogaeth ohono ar draws y sector cyfreithiol yng Nghymru, ac felly ymdeimlad clir o gyfrifoldeb a rennir, yn hollbwysig. Yn bennaf, y nod o brif-ffrydio'r ystyriaeth o gyfraith Cymru a gweithrediad cysylltiedig y system cyfiawnder ar sail Cymru gyfan. Yn ogystal â phrif rôl ar gyfer y proffesiynau, mae'n briodol pwysleisio pwysigrwydd cyfraniadau gan y Cwnsler Cyffredinol a'r farnwriaeth yn yr ymdrech hon, yn bennaf o ran cwrmpas cyfraith Cymru ac, fel elfen hanfodol o reol gyfreithiol, fynediad at gyfiawnder yng Nghymru. Yn ogystal â darparu'r mewnbyn academaidd angenrheidiol, mae gan Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru rôl sefydliadol werthfawr i'w chwarae, nad oes angen iddi fod yn feichus yn enwedig o'i chyflawni ar sail gylchredol.
7. Fel y dangoswyd, mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn taflu goleuni newydd ar weithrediad y system gyfreithiol yng Nghymru drwy ddarparu tystiolaeth yn ogystal â chyfraniadau ymchwil wedi eu targedu. Mae'n glir, fodd bynnag, na ddylai'r prosesau archwilio ac adolygu penodedig ddod i ben gyda'r Comisiwn. Yn hytrach, i'r gwrthwyneb: ni waeth beth fo'r ymateb gwleidyddol - deddfwriaethol - i'r argymhellion yn y pen draw, bydd corff mawr o wybodaeth a dealltwriaeth i

adeiladu arno. Mae gan gorff sefydlog, cynrychioliadol sydd â'r gallu a'r hyblygrwydd i ymateb yn greadigol, nid yn unig i heriau a chyfleoedd sydd eisoes yn bodoli, ond rhai newydd hefyd, gyfraniad pwysig i'w wneud i ddyfodol iach y system cyfiawnder a'r sector cyfreithiol yng Nghymru.

8. Sut felly y gellid mynegi hyn mewn ffordd ddiriaethol mewn cynllun sefydliadol?

Teitl

9. Awgrymir y teitl 'Cyngor Cyfraith Cymru' am sawl rheswm. Mae'n adlewyrchu cymeriad y cynllun sefydliadol arfaethedig mewn ffordd addas. Mae'n cyfleu difrifoldeb y pwrpas. Mae'n gweithio'n dda yn y ddwy iaith.

Cylch gwaith

10. Awgrymir pennawd cyffredinol a rhai paramedrau ac awgrymiadau sylfaenol fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor yn fforwm cynghori annibynnol sy'n hyrwyddo gwybodaeth a sgiliau, arfer gorau ac arloesedd ym maes y gyfraith, yn cynnwys:

- astudio, addysgu a lledaenu cyfraith Cymru
- mynediad at gyfiawnder a hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru
- gweithrediad ymarferol y system cyfiawnder yng Nghymru
- cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y system cyfiawnder ac addysg gyfreithiol gyhoeddus
- hyfforddiant proffesiynol a barnwrol ac addysg barhaus
- datblygu 'technoleg gyfreithiol'
- addysg ac ymarfer cyfreithiol cyfrwng Cymraeg
- y cysylltiadau rhwng ysgolion y gyfraith, proffesiynau cyfreithiol a'r farnwriaeth yng Nghymru

Cyfansoddiad

11. Mae cynrychiolaeth briodol o etholaethau a buddiannau lluosog i bob diben yn pennu Cyngor llawn, cymharol fawr. Byddai darparu ar gyfer aelodau cyfetholedig yn caniatáu ar gyfer cynnwys arbenigwyr blaenllaw; yn yr un modd mae angen arbenigedd penodedig cyfrwng Cymraeg. O gofio iddynt fod yn ffynhonnell werthfawr o her adeiladol yng ngwaith JSC yn yr Alban, argymhellir aelodau lleyg hefyd.

Llywydd: Barnwr y Goruchaf Lys presennol neu wedi ymddeol

Cadeirydd: Pennaeth Ysgol y Gyfraith yng Nghymru (ar sail gylchredol 1-2 flynedd; cyfrifoldeb sefydliadol am Ysgrifenyddiaeth y Cyngor ac ati)

Cwmsler Cyffredinol

Barnwr Llywyddol Cymru

Llywydd, Tribiwnlysoedd Cymru

Barnwr Rhanbarth

Yr Ynadaeth (1)

Uwch Aelod o'r Coleg Barnwrol yng Nghymru (1)

Pennaeth CPS Cymru

Cyfreithwyr – Cymdeithas y Cyfreithwyr (2)

Bar – Cylchdaith Cymru a Chaer (2)

CILEx (Fforwm Cymru) (1)

Penaethiaid Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru (5): Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Abertawe, Prifysgol De Cymru (gan gynnwys 1 cynrychiolydd o'r Ysgol y Gyfraith sy'n 'cadeirio')

Coleg Cymraeg Cenedlaethol (1)

Sefydliad Cymru'r Gyfraith (1)

Y Gymdeithas Ddysgedig (1)

Cynrychiolwyr Lleyg (2)

Aelodau cyfetholedig (darpariaeth ar gyfer 2)

Arddull a gweithrediad

12. O ran arddull a dull gweithredu cyffredinol, mae'r JSC yn yr Alban yn gysail defnyddiol. I ddyfynnu'r Athro Paterson:
'The JSC is not a creature of statute and although it has informal Government recognition it is not funded by the Government... Nor does the JSC have an Executive role – it cannot tell anyone to do anything, but by building trust between the stakeholders it can facilitate the early exchange of information. [It is] a neutral forum at which friendly criticisms of... proposals can be aired without preventing any of the constituent stakeholders from pursuing any reform course that they have determined on. As such it would be an easy model to introduce into Wales.'
13. Yn enwedig o gofio'r cylch gwaith ehangach a gynigir ar gyfer Cymru, dylai ffyrdd cydweithredol neu ffyrdd mewn partneriaeth o weithio fod yn fuddiol iawn. Cyfrifoldeb y Cyngor yn amlwg fyddai ymhelaethu ar y dulliau o weithio. Digon yw awgrymu cyfarfodydd cyfnodol rheolaidd (3 y flwyddyn, yn dibynnu ar ffrydiau gwaith) gyda lleoliadau yn cylchdroi ac os yw'n' bosibl, sicrhau bod cyswllt fideo modern ar gael i ddarparu telebresenoldeb; darpariaeth ar gyfer paneli (sef 'y gyfraith ac iaith' a 'thechnoleg gyfreithiol' yn ddau brif ymgeisydd). Cymorth yr ysgrifenyddiaeth ar sail gylchredol (gweler uchod); a gwefan wrth gwrs.